**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Health and Social Care Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Mark Drakeford AC AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

14 Mai 2013

Annwyl Mark

Cyfeiriaf at ein trafodaeth ynghylch ymchwiliad byr posibl y Pwyllgor i'r achosion presennol o'r frech goch yn ardal Abertawe. Nid ein dymuniad fyddai dechrau ymchwiliad pan mae'r sefyllfa ar ei gwaethaf - neu bron â bod - a phethau pwysicach i weithwyr iechyd cyhoeddus proffesiynol ganolbwyntio arnynt. Roedd yr Aelodau'n awyddus i gael gwybod a yw'n fwriad gan Lywodraeth Cymru i gynnal ymchwiliad cyhoeddus i'r mater hwn. Roedd yn ddefnyddiol cael cadarnhad nad dyna eich bwriad.

Mae'n debygol y byddwn yn cynnal ymchwiliad i'r achos presennol, y rhesymau y tu ôl iddo, yr ymateb ac unrhyw ffactorau risg sy'n parhau ac a allai arwain at ddigwyddiad tebyg y tu allan i ardal Abertawe. Rydym yn llwyr ymwybodol bod achosion eraill o'r frech goch wedi cael eu cofnodi yng Ngwent yn arbennig.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AC AM**
Cadeirydd – Chair

**cc:** Ann Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA
Ffôn / Tel: 029 2089 8403
E-bost / Email: PwyllgorIGC@cymru.gov.uk / HSCCommittee@wales.gov.uk
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh